Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed
**Vere Street**
**Gilfach**
**Bargoed**
**CF81 8LB**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/03/2016**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned Gilfach ger Bargoed yn awdurdod lleol Caerffili. Mae 155 o ddisgyblion amser llawn rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae'r ysgol yn derbyn plant i'w meithrinfa ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae chwech o ddosbarthiadau, ac mae pedwar ohonynt yn ddosbarthiadau oedran cymysg.

Mae tua 30% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Hyd at yn ddiweddar, mae'r ffigur hwn wedi gostwng. Fodd bynnag, mae wedi aros yn gyson uwchlaw'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan tua 15% o ddisgyblion, ac mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion

Mae bron yr holl ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig, ac maent yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd ym Medi 2014. Ym Mawrth 2009 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed yn 2015-2016 yw £2,913. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghaerffili yw £5,191 a'r lleiafswm yw £2,492. Mae Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed yn safle 53 o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol, gyda mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn
- Mae bron yr holl ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws ystod o bynciau a meysydd dysgu
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, ac yn dangos gofal ac ystyriaeth at ei gilydd
- Mae'n darparu amrywiaeth eang a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus
- Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda
- Mae'n gymuned groesawgar a gofalgar

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, ac mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid
- Mae medrau arwain effeithiol iawn y pennaeth yn galluogi pob aelod o staff i gyfrannu'n eithriadol o dda at gyflawni nodau'r ysgol
- Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i bennu disgwyliadau uchel gan staff a disgyblion
- Mae cymuned gyfan yr ysgol yn gweithio ar y cyd i sicrhau gwelliant ac i wella deilliannau ar gyfer disgyblion
- Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn effeithiol
- Mae'r hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella yn gadarn ac yn effeithiol iawn
- Mae'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol wedi'u seilio'n systematig ar ddeilliannau'r broses hunanarfarnu
- Mae cynnydd yn erbyn cynllun gwella'r ysgol yn cael ei fonitro'n helaeth yn rheolaidd er mwyn arfarnu llwyddiant mentrau
- Mae ei gweithgareddau wedi arwain at welliannau sylweddol mewn cynnydd disgyblion, yn enwedig i'r rheini y mae angen help ychwanegol arnynt gyda'u dysgu

## Argymhellion

A1 Gwella safonau medrau llafar Cymraeg disgyblion y tu allan i wersi Cymraeg

A2 Gwella presenoldeb

A3 Gwella gallu disgyblion i weithio'n annibynnol

A4 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ynglŷn â hanes a diwylliant Cymru

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd islaw hynny a ddisgwylir am eu hoedran. Mae ychydig o ddisgyblion yn dechrau bywyd ysgol gyda medrau cyfathrebu sydd yn sylweddol islaw'r disgwyl. Fodd bynnag, mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol, ac mae mwyafrif yn gwneud cynnydd da iawn, yn enwedig gyda'u medrau darllen.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb yn dda i'w gilydd ac i'w hathrawon. Mae mwyafrif ohonynt yn hyderus wrth siarad gydag oedolion, ac yn awyddus i drafod beth maent yn ei wneud yn y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando yn dda i gydweithio â'i gilydd, ac mae hyn yn cefnogi'u dysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth Blwyddyn 5 a 6 yn trafod yn effeithiol sut i ysgrifennu disgrifiad dychmygus o ddeinosor.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau darllen effeithiol sy'n cefnogi'u dysgu yn dda iawn yn holl feysydd y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn cymhwyso'u gwybodaeth am seiniau llythrennau yn dda i ddarllen geiriau y maent yn anghyfarwydd â nhw. Siaradant yn frwdfrydig ynglŷn â'r llyfrau y maent yn eu darllen, y cymeriadau a'r plot. Mae ychydig ohonynt yn mynegi dewisiadau o ran mathau o lyfrau a hoff awduron. Mae'r medrau hyn yn parhau i ddatblygu'n dda yng nghyfnod allweddol 2, gyda llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen yn eang ac yn frwdfrydig. Gall bron pob un ohonynt ddarllen yn gywir ac yn rhugl, ac mae llawer yn gwneud defnydd da o fynegiant. Mae bron yr holl ddisgyblion yn gallu llithrddarllen a bwrw golwg ar destun yn gywir i gael yr ystyr.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cynhwysfawr a dychmygus wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r ysgol. Maent yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ar draws y cwricwlwm yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o eirfa yn effeithiol i ychwanegu diddordeb at eu hysgrifennu ac ymgysylltu â'r darllenydd. Mae llawer o ddisgyblion yn sillafu geiriau syml yn gywir ac yn defnyddio eu gwybodaeth ffonig yn dda i sillafu geiriau sy'n fwy cymhleth. Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad llawer o ddisgyblion yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu ar y medrau hyn yn gryf, gan greu darnau o ysgrifennu sy'n ddychmygus ac apelgar i'r darllenydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio paragraffau'n dda i drefnu eu gwaith ac mae rhai ohonynt yn defnyddio ffurfiau mwy datblygedig o atalnodi, fel elipsisau, i ychwanegu ing a chyffro at eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o rif a gwerth lle. Gall llawer o ddisgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen adio a thynnu â 10 a gall rhai disgyblion mwy

abl adio ffigurau dau ddigid i fyny i 100. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o gysyniadau fel siâp, amser a mesur. Defnyddiant y medrau hyn yn dda mewn llawer o bynciau gwahanol, er enghraifft wrth ddefnyddio diagramau syml i ddidoli siapiau dau ddimensiwn neu lunio graff bloc syml i nodi hoff gynhwysion i'w hychwaneg at uwd. Mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau mathemategol i ddatrys problemau gan ddefnyddio rhif a mesur ar draws y cwricwlwm yn dda, er enghraifft wrth gyfrifo faint o fwyd a dŵr y byddai ei angen ar ddyn yn y gofod dros gyfnod penodol neu gan ddefnyddio eu dealltwriaeth o ddegolion a lluosi i droi metrau yn filimetrau. Fodd bynnag, cyfyngedig yw dealltwriaeth llawer o ddisgyblion o ddefnyddio a dehongli data ar lefel briodol.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau TGCh effeithiol sy'n cefnogi eu dysgu bron ym mhob un o feysydd y cwricwlwm. Mae gallu rhai 'arweinwyr digidol' i gynorthwyo disgyblion eraill wrth ddatblygu eu medrau TGCh yn gryfder arbennig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da â datblygu eu medrau siarad a gwrando yn Gymraeg. Gallant ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau gan yr athro ac maent yn siarad yn glir a chywir mewn sesiynau Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu geiriau ac ymadroddion syml yn gywir, er enghraifft wrth labelu rhannau o'r corff. Mae rhai disgyblion sy'n fwy abl yn ysgrifennu'n estynedig wrth ysgrifennu llythyr at Siôn Corn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar lefel briodol, mae ganddynt ddealltwriaeth resymol o'u testunau a gallant ateb cwestiynau syml. Maent yn defnyddio geirfa dda yn eu hysgrifennu i ddisgrifio pethau y maent yn eu hoffi a phethau nad ydynt yn eu hoffi. Gall rhai ohonynt ymestyn eu brawddegau ac ysgrifennu'n gywir yn estynedig yn amser y gorffennol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud digon o ddefnydd o'u medrau Cymraeg mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm ac o gwmpas yr ysgol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg wedi tueddu i roi'r ysgol yn y 50% uchaf ar y deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad disgyblion mewn datblygiad mathemategol ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio'n sylweddol, ac nid oes tuedd ganfyddadwy. Fodd bynnag, ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf yn gyson dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae perfformiad bechgyn a merched fel grŵp yn tueddu i fod yn debyg. Nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi perfformio cystal â disgyblion eraill yn gyson am y pedair blynedd ddiwethaf, ond mae'r bwlch yn lleihau. Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn.

## Lles: Digonol

Mae gan bron bob disgybl agwedd gadarnhaol tuag at gael ffordd iach o fyw, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod ble i droi am gyngor a chymorth.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos gofal ac ystyriaeth i'w gilydd. Maent yn mwynhau gwersi ac yn ymgymryd yn dda â'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol mewn parau ac mewn grwpiau. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn ymateb yn effeithiol i her. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, ac mae bron pob un ohonynt yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mewn rhai dosbarthiadau, caiff disgyblion iau fynegi barn ynghylch beth a sut maent yn dysgu, er enghraifft pan fydd diddordebau disgyblion yn arwain y dysgu sy'n digwydd. Fodd bynnag, nid yw gallu llawer o ddisgyblion i weithio'n annibynnol a mynd i'r afael â phroblemau wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r cyngor ysgol yn gorff sefydledig, ac mae disgyblion yn cymryd eu rolau o ddifrif. Mae'n cyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau a chyfeiriad strategol yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'n arsylwi gwersi ac yn cynnal arolwg o farn eu cyfoedion i nodi meysydd o ymddygiad disgyblion y gallent helpu i'w gwella. Defnyddiant eu canfyddiadau'n briodol i ddyfeisio cynllun gweithredu disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau fel arweinwyr digidol ac arweinwyr chwarae, llyfrgellwyr a chapteiniaid dosbarth yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rôl weithredol yn eu cymuned leol, er enghraifft trwy fenter 'Balchder yn Ein Lle' ('Pride in Our Place') a'u targedau cymunedol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u hardal a'u rhan ynddi.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, er bod cyfradd presenoldeb yr ysgol yn dangos ychydig o welliant, mae wedi aros yn y 50% is o ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n ymgysylltu'n llwyddiannus â bron pob disgybl. Mae athrawon yn cynllunio'n dda ac yn darparu cwricwlwm dychmygus sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion yn effeithiol. Mae eu cynllunio ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn dda. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu'r un lefel o her i ddisgyblion â'r hyn a gânt yn eu gwersi Saesneg a mathemateg penodol, ac maent yn eu hannog i ymarfer a gwella'u medrau'n dda. Mae'r ysgol wedi addasu ei rhaglenni gwaith yn effeithiol i gynnwys gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfle i ddisgyblion ymweld ag amrywiaeth o leoedd o ddiddordeb sy'n gwella'r cwricwlwm yn dda. Er enghraifft, aeth disgyblion o ddechrau cyfnod

allweddol 2 i Gaerllion wrth astudio'r Rhufeiniaid, ac aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen i ganolfan gweithgareddau gwyddoniaeth i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd. Mae'r ysgol yn trefnu ystod o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr sy'n cefnogi dysgu disgyblion yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau garddio, côr, TGCh a chlybiau aml-chwaraeon. Mae disgyblion hŷn wedi elwa ar ymweliad preswyl â gwersyll yr Urdd yng Nglan Llyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac anturus.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ystod gwersi Cymraeg dynodedig yn dda. Mae'r rhaglenni gwaith cynlluniedig yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu eu medrau'n dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Fodd bynnag, disgwyliad cyfyngedig yn unig a geir i ddisgyblion ymarfer a gwella'r medrau hyn ymhellach y tu allan i wersi Cymraeg. O ganlyniad, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol a naturiol. Mae'r ysgol yn cynnal gwasanaethau Cymraeg rheolaidd, ac mae'n trefnu Eisteddfod flynyddol ac ymweliadau â safleoedd hanesyddol yng Nghymru, fel Pwll Mawr a'r Tŷ Weindio yn Nhredegar Newydd. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru a'i integreiddio yng nghwricwlwm yr ysgol yn gyfyngedig ar y cyfan.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn llwyddiannus. Mae'r pwyllgor eco yn weithgar iawn ac mae ei aelodau'n falch o'u gwaith yn hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol a lleihau gwastraff. Mae athrawon yn integreiddio agweddau ar fyw yn gynaliadwy yn eu cynllunio yn dda. Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddysgu am bwysigrwydd cynaliadwyedd trwy dyfu eu llysiau eu hunain yng ngardd yr ysgol a'u coginio fel rhan o glwb ar ôl yr ysgol. Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang yn briodol trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau coffáu fel Diwrnod Cofio'r Holocost a mentrau i ddeall pwysigrwydd masnach deg.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda i sicrhau bod gan ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu, eu bod yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Mae pob un o'r athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus gan roi blaenoriaeth i anghenion penodol y disgyblion. Yn benodol, maent yn cynllunio sesiynau i ddatblygu medrau sylfaenol disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd yn dda iawn i dargedu'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r rhain yn hynod effeithiol o ran eu helpu i wneud cynnydd da yn y medrau hyn.

Mae rhediad da i'r rhan fwyaf o wersi ac maent yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion. Er enghraifft, mae llythyr dychmygol gan weithgynhyrchwr siocled at ddisgyblion ym Mlwyddyn 3 yn symbyliad rhagorol iddynt gymryd rhan mewn amrywiaeth o dasgau dysgu pwrpasol. Mae bron pob un o'r gwersi'n cynnwys amcanion dysgu clir ac mae athrawon yn dyfeisio tasgau sy'n effeithiol o ran mynd i'r afael â'r rhain. Mae pob un o'r staff yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad a safonau gwaith disgyblion. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw gweithgareddau'n caniatáu digon o ryddid i ddisgyblion archwilio ac arwain eu dysgu eu hunain. Mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Caiff prosesau asesu'r ysgol effaith gadarnhaol iawn ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn ofalus, a defnyddir y data yn ddoeth gan athrawon dosbarth ac uwch arweinwyr i nodi'r rheiny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt a chynllunio'r cymorth ychwanegol mwyaf buddiol i fynd i'r afael â'u hanghenion. Mae athrawon yn defnyddio data yn effeithiol i osod targedau ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol iawn o'u targedau, maent yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i'w cyflawni, a gallant arfarnu'n llwyddiannus pa mor dda y maent wedi eu bodloni.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o'r amcan dysgu ar gyfer y sesiwn. Gall bron pob un o'r disgyblion asesu eu cynnydd eu hunain, a chynnydd eu cyfoedion, ac maent yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u dysgu. Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn nodi'r hyn y mae disgyblion wedi ei wneud yn dda, ac yn rhoi adborth buddiol i ddisgyblion ar beth i'w wneud nesaf i wella'u gwaith. Caiff disgyblion gyfleoedd defnyddiol i ymateb i sylwadau athrawon trwy 'gwmwl ymateb'. Mae athrawon yn defnyddio'r nodwedd hon yn gyson ac yn effeithiol ar draws yr ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae adborth athrawon yn cysylltu'n agos â'r meini prawf llwyddiant sy'n cael eu pennu ar ddechrau gwersi.

Mae adroddiadau blynyddol yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol ar gyfer disgyblion. Mae ganddi weithdrefnau clir ac effeithiol i annog disgyblion i ymddwyn yn dda, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a chadw'n ddiogel. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar fwynhad disgyblion o'r ysgol, a'u lles. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr i hyrwyddo a gwobrwyo presenoldeb rheolaidd disgyblion. Fodd bynnag, er bod tuedd o wella, nid yw'r rhain wedi cael digon o effaith ar godi lefelau presenoldeb eto.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da ag ystod o asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae staff yn gweithio'n agos â'r seicolegydd addysg a'r therapydd lleferydd ac iaith i gefnogi anghenion penodol disgyblion. Mae'r heddlu'n rhoi gwybodaeth dda i ddisgyblion ynglŷn â sut i aros yn ddiogel ar y rhyngrwyd ac am gamddefnyddio sylweddau.

Mae'r ysgol yn nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn brydlon. Caiff disgyblion gymorth hynod effeithiol sy'n bodloni eu hanghenion penodol yn dda. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn fanwl. Mae gan bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau addysg unigol defnyddiol. Mae'r ysgol yn ymgynghori â rhieni'n briodol ynglŷn â'r materion hyn. O ganlyniad, mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a gofalgar. Mae ei ffocws ar ddatblygu agwedd gadarnhaol at ddysgu, ac ymdeimlad o gymuned, yn amlwg ym mywyd a gwaith dyddiol disgyblion a staff. Er enghraifft, mae targedau cymunedol disgyblion yn eu hannog i gymryd rôl arwyddocaol mewn gofalu am eu hysgol a thu hwnt. Mae staff yn hyrwyddo goddefgarwch a pharch at bawb mewn modd cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar ar gyfer disgyblion, ac ardaloedd trefnus ar gyfer addysgu a dysgu. Mae arddangosfeydd deniadol yn dathlu gwaith a chyflawniadau disgyblion yn dda. Mae adeiladau a safle'r ysgol yn ddiogel, yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau, sy'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o safle'r ysgol gyfan i gefnogi dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, y mae'n ei rhannu'n llwyddiannus â'r holl randdeiliaid. Mae ei medrau arwain hynod effeithiol yn galluogi pob un o'r staff i gyfrannu'n eithriadol o dda at gyflawni nod yr ysgol i 'weithio a dysgu gyda'n gilydd i fod y gorau y gallwn'. Mae eu gweithredoedd wedi arwain yn uniongyrchol at welliannau sylweddol yng nghynnydd disgyblion, yn enwedig ar gyfer y rheiny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt â'u dysgu. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf mewn perthynas â chyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol disgyblion.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn hyrwyddo ethos cynhwysol a gofalgar lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu hymglymiad yn bwysig. Mae gan staff rolau a chyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio'n glir ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a roddir iddynt i arwain mentrau. Mae aelodau o'r uwch dîm rheoli yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i osod disgwyliadau uchel o staff a disgyblion. O ganlyniad, mae cymuned yr ysgol gyfan yn cydweithio i fynd â'r ysgol ymlaen a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion yn sylweddol. Er enghraifft, mae system strwythuredig ar gyfer ffoneg wedi helpu i wella medrau darllen ac ysgrifennu cynnar disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod arfer dda a meysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol yn cael eu nodi.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn cymryd rhan weithredol ac effeithiol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Nodwedd arwyddocaol o'u gwaith yw eu defnydd o deithiau dysgu, craffu ar lyfrau ac ymweliadau â gwersi i gael tystiolaeth uniongyrchol o'r hyn y mae'r disgyblion yn ei wneud. Cânt wybodaeth reolaidd a manwl am ddata gan y pennaeth. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth drylwyr am waith yr ysgol, gan gynnwys ei chryfderau a'r meysydd i'w gwella, a gallant ddwyn arweinwyr i gyfrif o ran deilliannau disgyblion, er enghraifft herio safonau darllen bechgyn.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn gadarn a hynod effeithiol. Maent yn nodweddion rheolaidd yng ngweithgareddau'r ysgol ac yn elfen bwysig o waith pob un o'r staff. Mae ansawdd gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol, sy'n canolbwyntio'n drylwyr ar ddeilliannau a chynnydd disgyblion, yn eithriadol o uchel. Mae elfennau effeithiol yn cynnwys gwrando ar ddysgwyr yn rheolaidd, arsylwadau gwersi a theithiau dysgu ffocysedig, adolygiadau trylwyr o lyfrau, a sylw manwl i ddata. Mae hyn yn rhoi darlun clir a chywir iawn i bawb yn yr ysgol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Yn benodol, mae'n galluogi'r ysgol i nodi a gweithredu rhaglenni cymorth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n tanberfformio neu'n cael trafferth â'u dysgu. Mae diwrnod blynyddol yr ysgol ar gyfer 'arfarnu a gosod targedau' yn galluogi pob un o'r staff a'r llywodraethwyr i gyfrannu'n effeithiol at y broses hunanarfarnu. Mae'r arfer hon yn fuddiol iawn o ran creu dull cyffredin, llwyddiannus a gweithredol i wella'r ysgol.

Mae'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol yn briodol ac yn adeiladu'n systematig ar ddeilliannau'r broses hunanarfarnu. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn gosod meysydd strategol clir i'w gwella, ac mae'n nodi costau, graddfeydd amser a chyfrifoldebau yn effeithiol. Mae meini prawf llwyddiant yn fesuradwy ar y cyfan, ac yn cysylltu'n glir â gwelliannau yn neilliannau disgyblion. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd yn erbyn ei chynllun gwella yn helaeth ac yn rheolaidd i arfarnu llwyddiant y mentrau.

Ers penodi'r pennaeth, mae hyn wedi arwain at symud yr ysgol ymlaen yn sylweddol o ran ei darpariaeth a'i deilliannau ar gyfer disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod fuddiol o bartneriaid sy'n helpu i wella deilliannau a lles disgyblion. Er enghraifft, mae rhaglen hynod lwyddiannus sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n agored i niwed a'u plant wedi arwain at ystod sylweddol o fanteision i ddisgyblion a'u rhieni. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau yn neilliannau a lles disgyblion, perthnasoedd rhieni a phlant, a chyswllt rhwng y cartref a'r ysgol.

Trwy ffeiriau a digwyddiadau noddedig, mae grŵp codi arian rhieni'r ysgol wedi codi dros £2,000 yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi bod yn werthfawr o ran datblygu ardal awyr agored yr ysgol ac o ran rhoi cymorth ariannol i deuluoedd ar gyfer teithiau ac ymweliadau.

Mae cysylltiadau ag archfarchnad leol wedi darparu cyllid i'r ysgol brynu eitemau ar gyfer clwb garddio'r ysgol, a chefnogi gweithgareddau Dydd Gŵyl Dewi. Mae canolfannau garddio cenedlaethol a lleol wedi darparu cyllid i ddatblygu 'coedwig wyllt' yr ysgol ac ardaloedd dysgu yn yr awyr agored.

Mae ymweliadau gan glerigwyr â'r ysgol a chan ddisgyblion â'r eglwys ar gyfer gwasanaethau, fel gŵyl y cynhaeaf, yn ddefnyddiol o ran darparu cyfleoedd gwerth chweil i wella datblygiad ysbrydol disgyblion.

Ceir cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r cylch chwarae cyfagos. Mae plant o'r cylch chwarae yn mynd ar ymweliadau gwerth chweil â'r ysgol cyn symud i addysg amser

llawn, er enghraifft trwy fynychu gwasanaethau a diwrnod chwaraeon. Mae staff yr ysgol ac ymarferwyr y cylch chwarae yn rhannu gwybodaeth berthnasol yn dda. Mae hyn yn galluogi disgyblion i fynd i'r ysgol yn ddidrafferth ac i staff fynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn gyflym ac yn effeithiol. Mae ymglymiad rhieni yn y gweithgareddau hyn yn gwella'r cyswllt â'r cartref a'r ysgol yn llwyddiannus.

Mae trefniadau pontio effeithiol sy'n golygu bod disgyblion yn ymweld â'r ysgol uwchradd, gan gynnwys ymweliad preswyl, yn galluogi disgyblion i drosglwyddo i addysg uwchradd yn llwyddiannus. Mae'r ysgol wedi gweithio'n dda gydag ysgolion eraill yn y clwstwr i sicrhau cywirdeb asesiadau athrawon.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chynorthwywyr addysgu cymwys i fodloni anghenion disgyblion. Mae arweinwyr yn eu defnyddio'n dda i wneud y defnydd gorau o'u harbenigedd a'u profiad.

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth yn elwa'n dda ar ystod dda o gyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n cysylltu'n effeithiol â threfniadau rheoli perfformiad. Er enghraifft, mae hyfforddiant mewn defnyddio system ffonig strwythuredig ac mewn defnyddio sesiynau darllen grŵp yn effeithiol wedi galluogi staff i wella darllen disgyblion yn sylweddol. Yn yr ysgol, mae athrawon yn cydweithio'n agos i rannu syniadau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r ysgol wrthi'n cymryd rhan mewn rhwydwaith o arfer broffesiynol sy'n ymwneud â chynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu unrhyw effaith eto. Mae'r ysgol wedi rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer amser cynllunio a pharatoi athrawon.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol i fodloni'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol a sicrhau bod adnoddau da yn cael eu darparu yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd disgyblion i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion targedig.

Yng ngoleuni'r safonau academaidd a gyflawnir gan ddisgyblion yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6762121 -Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 150 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 26.9 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 13 | 16 | 21 | 27 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 76.9 | 87.5 | 76.2 | 96.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 1 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 16 | 21 | 27 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.6 | 87.5 | 81.0 | 96.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.8 | 37.5 | 33.3 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 4 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 16 | 21 | 27 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.6 | 87.5 | 81.0 | 96.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.8 | 37.5 | 28.6 | 29.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 16 | 21 | 27 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 76.9 | 93.8 | 90.5 | 96.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 23.1 | 50.0 | 38.1 | 40.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6762121 - Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 150 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 26.9 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 15 | 23 | 21 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 86.7 | 78.3 | 81.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 23 | 21 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.7 | 82.6 | 85.7 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 34.8 | 33.3 | 68.8 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 2 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 23 | 21 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.7 | 82.6 | 95.2 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 30.4 | 28.6 | 62.5 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 3 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 23 | 21 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.7 | 87.0 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 34.8 | 33.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 76 | 76 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 76 | 75 | 1 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 76 | 76 | 0 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 76 | 76 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 76 | 76 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 76 | 76 | 0 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 76 | 76 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 76 | 76 | 0 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 75 | 66 | 9 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 88% | 12% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 76 | 76 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 76 | 72 | 4 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 76 | 73 | 3 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 45 | 37 | 7 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 82% | 16% | 2% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 45 | 36 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 44 | 36 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 45 | 35 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 44 | 24 | 20 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 45 | 33 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 45 | 35 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 45 | 32 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 44 | 33 | 10 | 0 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 75% | 23% | 0% | 2% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 44 | 24 | 20 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 45 | 32 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 37 | 23 | 13 | 1 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 62% | 35% | 3% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 45 | 26 | 18 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 45 | 36 | 8 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 0% | 2% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 40 | 25 | 15 | 0 | 0 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 44 | 31 | 12 | 1 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 70% | 27% | 2% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 36 | 18 | 17 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 50% | 47% | 3% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 45 | 32 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 43 | 33 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 77% | 21% | 2% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jonathan Wright | Arolygydd Cofnodol |
| Richard Hawkley | Arolygydd Tîm |
| Andrea Louise Davies | Arolygydd Lleyg |
| Susan Clisham | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catherine Rees | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.